# Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 12 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Gweinidog |

## Diben

1. Rhoi gwybod i’r aelodau am y materion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2002.

## Argymhelliad

2. Gwahodd Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

## Y diweddaraf am hynt y cod ymarfer gwirfoddol i bobl sy'n derbyn grantiau gan y Cynulliad

3. Mae drafft o'r cod wedi’i anfon at Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (OCG), iddynt allu rhoi barn gyfreithiol arno. Mae'r cod hwn yn cadw'n glos iawn at rannau perthnasol y Cod Ymarfer Gwirfoddol ar gyfer Cyflenwyr, a gafodd ei glirio gyda'r cyrff cydraddoldeb perthnasol. Ar ôl i’r OCG ei glirio, bydd papur yn mynd at y Bwrdd Gweithredol gyda chynigion manwl ar gyfer rhoi'r cod ar waith.

## Diwrnod Amrywiaeth

4. Cynhaliwyd diwrnod amrywiaeth cyntaf y Cynulliad ar 11 Rhagfyr. Roedd digwyddiadau ym Mharc Cathays a Bae Caerdydd yn ogystal ag yn ein swyddfeydd rhanbarthol. Nod y diwrnod oedd helpu staff i ddeall sut i hyrwyddo cydraddoldeb a thynnu eu sylw at nifer o wahanol wyliau crefyddol y gaeaf. Cynhelir dau ddigwyddiad ar 12 Rhagfyr i ledaenu arferion gorau ymhlith staff. Cynhelir sesiwn hyfforddi ar gydraddoldeb ar 13 Rhagfyr ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil.

## Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol

5. Mae dau gynllun peilot ar waith, y naill yn yr Is-adran Personél a’r llall yn Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol, i helpu is-adrannau i ddatblygu'u hasesiadau o'u cynlluniau cydraddoldeb hiliol. Y bwriad yw eu defnyddio fel llinyn mesur ar gyfer penaethiaid is-adrannau eraill ac i benaethiaid y ddwy is-adran rannu’r arbenigedd y byddant wedi'i ennill yn y broses. Hefyd, bydd yr Adran Datblygu Economaidd yn gysylltiedig â phrosiect ar lefel grp i asesu pa mor effeithiol yw'r asesiad ar lefel grp.

**Cyngres Ryngwladol o Bobl Ifanc Anabl**.

6. 2003 yw Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl. Mae'r Cynulliad wedi cytuno i roi £125,000 i helpu i ariannu Cyngres Ryngwladol o Bobl Ifanc Anabl (gwnaed cais am arian ychwanegol hefyd i'r gymuned fusnes a ffynonellau'r Gymuned Ewropeaidd). Bydd hon yn ddigwyddiad pwysig ac yn cael ei chynnal ym Mhrifysgol Abertawe yn ystod wythnos gyntaf Gorffennaf 2003. Mae'r prosiect arloesol hwn yn cael ei drefnu a'i arwain gan grp llywio o dan gadeiryddiaeth Dr Kevin Fitzpatrick (Comisiynydd DRC) ac mae'n cael ei gefnogi gan fudiadau gwirfoddol ledled Cymru.

7. Mae rhaglen ar gyfer wythnos o ddigwyddiadau yn cael ei llunio gan bobl ifanc anabl o bob cwr o Gymru gan gynnwys y bobl ifanc a ddaeth i 'Dweud eich Dweud' a gynhaliwyd yn Siambr y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2001.

8. Mae'r bobl ifanc hefyd wedi datblygu'r logo ac wedi penderfynu ar deitl ar gyfer y digwyddiad 'Rights into Action 2003 (y gyngres ryngwladol gyntaf o bobl ifanc anabl)'. Nod y digwyddiad yw:

- Helpu pobl ifanc anabl Cymru i feithrin cysylltiadau â phobl debyg mewn gwledydd eraill ac i gael hwyl yn y broses

- Marchnata Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl i bobl anabl Cymru a thu hwnt
- Rhoi cyfle i bobl ifanc eu hunain fod yn rhan o'r gwaith cynllunio, darparu a phenderfynu o ran gwaith neu newid mewn polisi
- Codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl ifanc anabl Cymru
- Rhoi mwy o bwysau ar ddeddfwyr Ewrop i gryfhau hawliau sifil pobl anabl.

**Seminarau cyflogau cyfartal ar gyfer y sectorau addysg uwch, llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru**

9. Awgrymodd y Cyd-weithgor ar gyflogau cyfartal bod seminarau ar gyflogau cyfartal yn cael eu cynnal ar gyfer y sectorau Addysg Uwch, Llywodraeth Leol a'r GIG yng Nghymru.

10. Ar ôl ymgynghoriad rhwng y Comisiwn Cyfle Cyfartal, TUC Cymru a swyddogion y Cynulliad yn is-adrannau Addysg Uwch, Llywodraeth Leol a'r GIG, cytunwyd y byddai seminarau'n cael eu cynnal er mwyn annog a datblygu'r broses/ymgyrch cyflogau cyfartal.

**Seminar Addysg Uwch**

11. Roedd y Seminar Addysg Uwch i fod i gael ei chynnal ar 21 Tachwedd 2002. Cafodd ei gohirio a chaiff ei chynnal yn awr ar 20 Ionawr 2003 yn y Lake Country House, Llangamarch.

**Seminar y GIG**

12. Cynhaliwyd seminar y GIG ar 27 Tachwedd 2002 yn y Lake Country House, Llangamarch.

13. Daeth dros 30 o bobl i’r seminar o 11 ymddiriedolaeth allan o’r 13.

14. Roeddwn i yn ogystal â Sharon Holder o Undeb y GMB, Clive Warbrick o Dîm Diwygio Prosiectau yr Adran Iechyd a Stephen Redmond, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol GIG Cymru ymhlith y siaradwyr.

15. Cafodd y digwyddiad groeso mawr ac roedd y ffurflenni gwerthuso yn dangos bod pobl yn credu fod y seminar yn gymorth mawr ac yn werth chweil. Roedd pobl yn arbennig yn gwerthfawrogi’r wybodaeth a dderbyniwyd gan Clive Warbrick a Sharon Holder gan fod y ddau wedi bod, ac yn parhau i fod, yn rhan o’r trafod ar yr agenda i newid y GIG.

**Seminar Llywodraeth Leol**

16. Roedd Seminar Llywodraeth Leol i fod i gael ei chynnal ar 28 Tachwedd 2002. Yn anffodus, bu’n rhaid gohirio’r seminar hon a chaiff ei chynnal yn awr ar 24 Ionawr 2003 yn y Lake Country House, Llangamarch.

**Cyfarfodydd a Digwyddiadau**

17. Rwyf wedi bod yn y cyfarfodydd/digwyddiadau canlynol:

<u>14 Tachwedd</u> – Seremoni Wobrwyo Deall Anabledd yn Arena Rhyngwladol Caerdydd

Cynhaliwyd y Seremoni Wobrwyo Deall Anabledd ddydd Iau 14 Tachwedd 2002 yn Arena Rhyngwladol Caerdydd. Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a’r Fro drefnodd y digwyddiad, a’i nod oedd cydnabod gwaith da a wneir o ran hyrwyddo agweddau da at bobl ag anableddau dysgu.

Cyflwynwyd gwobrau mewn 3 chategori: cyflogwr (enillydd: KFC GB Cyf), unigolyn (enillydd: Dilys Price) ac ysgol (enillydd: Ysgol Gynradd Llanedyrn).

<u>29 Tachwedd</u> – Cyfarfod â hyfforddwr ym maes Cyfle Cyfartal i drafod hyfforddi Aelodau’r Cynulliad ym maes cydraddoldebMewn ymateb i gais y Cyd-weithgor Cyflog Cyfartal i gynnal seminarau cyflog cyfartal ar gyfer y GIG, y sector addysg uwch a llywodraeth leol, trefnwyd tair seminar:ynhaliwd. Bydd hyn yn digwydd yn y Flwyddyn Newydd.

<u>3 Rhagfyr</u> – Diwrnod Ewropeaidd Pobl Anabl

Digwyddiad amser cinio gan Grp Anableddau Rhyngwladol Cymru (WILD) i ddathlu Diwrnod Ewropeaidd Pobl Anabl yng nghanolfan gynadleddau Prifysgol Caerdydd.

Rhwydwaith anffurfiol yw WILD o fudiadau gwirfoddol sy’n gweithio i hyrwyddo hawliau pobl sydd ag anableddau dysgu, a hynny o fewn cyd-destun rhyngwladol. Cafwyd cyflwyniad gan Adele Cherrill,

darlithydd mewn athroniaeth ym Mhrifysgol Morgannwg. Siaradodd am y llyfryn Saesneg clir ar y Ddeddf Hawliau Dynol y mae wedi bod yn helpu WILD i'w lunio ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

4 Rhagfyr – Agor Swyddfeydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Newport Road, Caerdydd.

Ar ôl yr adolygiad o'r Cyngor Ffoaduriaid yn 2000, rwy'n hapus gyda'r modd y maent yn mynd ati i weithredu 68 argymhelliad yr adolygiad. Un o'r argymhellion oedd dod o hyd i swyddfeydd addas ar gyfer eu gwaith gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Roeddwn yn falch o gael agor safle newydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru yng Nghaerdydd ar 4 Rhagfyr 2002.

11 Rhagfyr – Cyfarfod â Yasmin Hussein, pennaeth newydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb – Dyma fydd ymweliad cyntaf Ms Hussein â'r Cynulliad Cenedlaethol a threfnwyd rhai cyfarfodydd rhagarweiniol ar ei chyfer y diwrnod hwnnw. Mae'n gobeithio dod i o leiaf ran o gyfarfod y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr.

10. 12. Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes[][Y] Teimlwyd bod goblygiadau i'r

13.

14.

15.

16.

18. -28 Tachwedd - cynhelir seminar llywodraeth leol yn Llangamarch

19.

22.

(: (: